

Y Cyfoethog a'r Tlawd yn Oes Fictoria – Nodiadau'r Athro

Trafodaeth Gychwynnol:

- Pryd oedd Oes Fictoria?

1837-1901

- Pwy oedd Fictoria, sy'n rhoi ei henw i'r Oes?

Sleid 2 - Fictoria oedd y Frenhines yn y cyfnod. Llythyr gan y Frenhines Fictoria o Gastell Windsor sydd ar Sleid 2.

Rydyn ni'n mynd i ddysgu am ddau deulu a oedd yn byw yng Nghaerdydd yn ystod Oes Fictoria ac am eu bywydau nhw.

Teulu Cefnog (Sleidiau 3—13)

Mae **sleidiau 3—5** yn dangos canlyniadau Cyfrifiad:

- Beth yw Cyfrifiad?

Cofnod gan y llywodraeth o bawb yn y boblogaeth, yn cynnwys oedran, gwaith a sawl person sy'n byw ym mhob tŷ.

Canlyniadau'r Cyfrifiad: Teulu Bute yng Nghastell Caerdydd, 1891

- Sawl person oedd yn byw yn y tŷ hwn?

Roedd 6 aelod teulu a 70 gwas a'u teuluoedd hwythau. Mae'r cofnod yn dair tudalen o hyd ar gyfer un cartref!

- Pa waith roedden nhw'n wneud?

Bonheddwr oedd y perchennog, felly doedd ganddo fe ddim swydd, ond rydym yn gwybod bod yr Ardalydd Bute yn ŵr busnes llwyddiannus. Roedd eraill yn y cartref yn weision, gyda swyddi megis morwyn, bwtler a garddwr.

- Ydych chi'n credu bod y plant yn mynd i'r ysgol?

Roedden nhw'n cael eu dysgu gan athrawes gartref.

- Hoffech chi fod wedi eich dysgu gan athrawes gartref?

Fyddai dim rhaid i chi fynd i'r ysgol ond fyddai gennych chi ddim ffrindiau, a byddai eich athrawes yn byw gyda chi!

- Edrychwch ar y map sy'n dangos y Castell

Sleid 6 – Map Arolwg Ordnans, rhifyn 1af, Castell Caerdydd (yn y gornel chwith) a'r ardal leol.

- Pa bethau gallwch chi eu gweld ar y map sydd yn dal i fod yno heddiw?

Castell Caerdydd, Carchar Caerdydd, yr afon, Gorsaf Caerdydd

- Pa bethau sy'n wahanol?

Dydy Stadiwm y Mileniwm na'r Canolfan Siopa Dewi Sant ddim yno; mae llawer o dai wedi eu dymchwel.

Sleid 7 – Yr un map ond golwg agos ar Gastell Caerdydd.

- Pa mor fawr oedd y tŷ?

Roedd e'n fawr iawn, yn enwedig o'i gymharu â rhai eraill yr ardal.

- Pa fath o dŷ yw e?

Mae'n dŷ ar wahân, heb fod yn sownd at unrhyw dŷ arall.

- Oes gardd yno?

Oes, mae llawer o dir o amgylch y tŷ.

- Oes llawer o dai gerllaw?

Dim ond ambell un, a dydyn nhw ddim yn agos iawn.

- Beth arall sydd gerllaw?

Mae parciau, ffos a.y.b.

Sleidiau 8 a 9 – Catalogau'n dangos eitemau ar werth i gyfoethogion ar gyfer eu cartrefi.

- Pa fath o ddodrefn oedd ganddyn nhw?

Roedd ganddyn nhw lawer o bethau i wneud eu bywydau'n haws, er enghraifft offer gwneud bara a chacennau, popty, golau a hyd yn oed tai bach gyda sgwd dŵr. Mae ganddyn nhw addurniadau er mwyn gwneud i'r tŷ edrych yn ddeniadol, fel mowld cacennau a gwahanol fathau o oleuadau.

Sleidiau 10 – 13 – Ffotograffau o deulu cyfoethog o Oes Fictoria (Insole Court, Caerdydd).

- Pa fath o ddillad y maen nhw'n ei wisgo?

Maen nhw'n gwisgo dillad trwsiadus, glân.

- Beth maen nhw'n ei wneud yn y lluniau?

Maen nhw'n paratoi ar gyfer teithio mewn coets ac yn cael te bach yn yr ardd.

- Sut dŷ maen nhw'n byw ynddo?

Mae'n dŷ mawr gyda gardd.

- Ar Sleid 13 mae gwraig a dau o blant. Ydych chi'n meddwl mai bechgyn ynteu ferched ydyn nhw? Pam rydych chi'n meddwl hynny?

Dydyn ni ddim yn gwybod yn sicr. Roedd bechgyn teuluoedd cefnog Oes Fictoria yn aml yn gwisgo ffrogiau tan iddyn nhw ddechrau'r ysgol.

Teulu Tlawd (Sleidiau 14 - 45)

Mae **Sleidiau 14—15** yn dangos canlyniadau Cyfrifiad 1891:

[Gallwch chi ddewis edrych ar unrhyw gyfeiriad, ond mae **7 Manor Street** ar Sleid 14 yn enghraifft dda]

- Sawl person oedd yn byw yn y tŷ hwn?

Roedd 6 o bobl yn y cartref yma - pen yr aelwyd, ei wraig, eu plant a dau letywr dan 18 oed.

- Pa waith roedden nhw'n wneud?

Fel arfer, gwaith caib a rhaw. Mae 7 Manor Street yn dangos mai garddwr oedd pen yr aelwyd ac roedd ei fab 14 oed yn was neges. Mae'r Cyfrifiad yn nodi bod pobl yn gweithio fel siopwyr, clerics rheilffordd, yn y diwydiant glo neu ffatrioedd gwlan.

- Beth roedd y plant yn wneud?

Roedd y rhai iau mewn addysg a'r rhai hŷn eisoes yn gweithio.

Mae **Sleid 16** yn dangos cofrestr Cwmni Haearn Dowlais ar gyfer 1 Mai 1866 sy'n nodi bod 505 bachgen a 64 merch 10 – 13 oed yn gweithio yno.

Sleidiau 17 – 18 – Map Arolwg Ordnans o Gaerdydd, rhifynnau 1 a 2.

- Allwch chi ddod o hyd i Manor Street ar y map sydd ar Sleid 17? Allwch chi ddod o hyd iddo ar y map diweddarach ar sleid 18?
- Beth sydd wedi newid yn yr ardal?

- Beth sy'n dal i fod yr un peth?

Sleid 19 – cynllun ar gyfer tŷ yng Nghaerdydd ym 1883.

- Oedd e'n dŷ mawr?

Na, dim felly. Byddai'r tŷ hwn wedi bod yn eithaf nodweddiadol ar y pryd.

- Sawl ystafell oedd ynddo?

4 ystafell i lawr y grisiau a 3 ystafell wely. Cyfanswm o 7.

- Beth oedd yr ystafelloedd?

Roedd parlwr yn ystafell fyw ffurfiol, fel arfer ar gyfer ymwelwyr. Roedd y gegin gefn yn gegin ychwanegol ar gyfer golchi llestri a dillad. Doedd dim ystafell ymolchi gan fod y tŷ bach y tu allan a doedd y bobl ddim yn ymolchi'n aml iawn (unwaith yr wythnos efallai, a bydden nhw'n rhannu dŵr ymolchi!)

Sleidiau 20 – 21 – Ffotograffau Llys Kingston ger Stryd Caroline.

- Pa fath o ddillad y maen nhw'n eu gwisgo yn y lluniau?

Mae'r dillad yn edrych yn hen, yn garpiog ac yn fudr.

- Sut amodau rydych chi'n credu roedden nhw'n byw ynddyn nhw?

Cyfyng (ar Sleid 20, gallwn weld llawer o ffenestri'n agos at ei gilydd) a budr (mae Sleid 21 yn dangos nad oedd y waliau'n lân iawn).

Sleidiau 22 - 23 – Cofnodion carchar Oes Fictoria. Euogfarnau plant dan 18 yw'r rhain. Mae Sleid 22 yn dangos bod Thomas Barry wedi dwyn chwe tharten riwbob, ac fe'i hanfonwyd i ysgol benyd. Mae Sleid 23 yn dangos bod Mary Jones wedi dwyn siôl, ac fe'i hanfonwyd i'r carchar am 14 diwrnod.

- Pam rydych chi'n meddwl bod cymaint o bobl yn mynd i'r carchar am ddwyn?

Roedden nhw mor dlawd fel bod rhaid iddyn nhw ddwyn bwyd a dillad. Roedd y gosb am ddwyn yn llym iawn er mwyn atal pobl rhag gwneud.

Sleidiau 24 – 25 – Mae cofnodion y llyfr cofrestru yn dangos pa fath o afiechydon roedd y plant yn eu dal.

- Oedd y plant yn sâl yn aml? Pa fathau o salwch y bydden nhw'n eu dal?

Roedden nhw'n aml yn wael ac yn dal afiechydon megis y dwymyn goch, y frech wen, difftheria, y pas a.y.b.

- Pam roedden nhw'n wael mor aml? A pham yr oedden nhw'n dal afiechydon nad ydyn ni'n eu dal mwyach?

Brechu; rydyn ni'n cael gofal meddygon ac ysbytai ac yn derbyn meddyginiaeth yn haws ac yn rhatach.

Sleidiau 26 – 27 – Mae'r llyfr log yn dangos dros ba resymau roedd y plant yn cael amser i ffwrdd o'r ysgol.

- Pam byddai'r plant yn cael amser i ffwrdd o'r ysgol pan oedd y tywydd yn wlyb?

Byddai rhaid iddyn nhw gerdded i'r ysgol, weithiau byddai'r daith yn hir, ac ni fyddai gan lawer ohonyn nhw gotiau, yn sicr dim cotiau glaw, ac roedd tyllau yn eu hesgidiau yn aml. Petaen nhw'n gwlychu ac yn dal annwyd, gallai hwnnw ddatblygu'n afiechyd difrifol.

Sleidiau 28-29 – Cofnodion y Llyfr Log yn dangos pam bod yr ysgol ar gau.

- Pam bydden nhw'n cael dyddiau o wyliau?

Er mwyn dathlu agor coleg newydd; oherwydd bod picnic neu rhyw ddigwyddiad arall wedi ei drefnu, megis mabolgampau.

Mae **Sleid 30** yn dangos rheolau Ysgol Genedlaethol Llanilltud Fawr.

- Enwch rai o reolau eich hysgol chi
- Ydyn nhw fel y rhain, ynteu'n wahanol?
- Beth sy'n digwydd os ydych chi'n torri rheolau yn eich ysgol?

Mae **Sleid 31** yn dangos disgyblion yn cael cosb am beidio â thalu sylw mewn gwers fathemateg. Bydden nhw'n aml yn cael eu cosbi gyda'r gansen neu eu taro gyda phren mesur.

Mae **Sleidiau 32 - 33** yn dangos rhestr y pynciau oedd yn cael eu dysgu yn yr ysgol. Roedd merched a bechgyn yn astudio pynciau gwahanol. Byddai'r merched yn gwneud pethau megis coginio a gwnïo, a'r bechgyn yn gwneud gwaith coed a chelf.

Llyfr ymarferion merch fach o'r enw Emma Edmund sydd ar **Sleid 34**.

- Pam rydych chi'n meddwl bod y merched a'r bechgyn yn dysgu pethau gwahanol yn yr ysgol?

Oherwydd byddai'r bechgyn yn aml yn mynd i weithio mewn ffatrioedd neu weithdai, a byddai disgwyl i'r merched aros gartref i ofalu am y teulu a'r tŷ.

Mae **Sleidiau 35 – 37** yn dangos ffotograffau o ysgolion ym Mhenarth a Chaerdydd.

- Beth roedd y plant yn wisgo i fynd i'r ysgol?

Doedd dim gwisg ysgol swyddogol, ond roedd rhaid i ferched wisgo ffrogiau ac i fechgyn wisgo trowsus neu drowsus cwta a siacedi.

- Beth mae'r plant yn ei wneud?

Yn y llun cyntaf (sleid 35), maen nhw'n plethu basgedi, yn yr ail (sleid 36), maen nhw'n ymarfer eu mathemateg ar abacws, ac yn y trydydd (sleid 37), maen nhw'n gwneud y dril ysgol, sef fersiwn yr oes honno o Ymarfer Corff.

- Sut olwg sydd ar yr athro?

Golwg o ddifrif!

Mae **Sleid 38** yn dangos y dril ysgol swyddogol, a oedd yn cynnwys llawer o orymdeithio ac aros yn y drefn gywir.

- Ydy hyn yn wahanol i'r Ymarfer Corff rydych chi'n ei wneud yn yr ysgol?

Mae **Sleidiau 39 – 40** yn dangos lluniau o blant yn y wyrchw. Byddai plant yn mynd yma os oedden nhw'n dlawd iawn.

- Sut mae'r plant yn edrych?
- Ydyn nhw'n hapus ynteu'n drist?

Mae **Sleid 41** yn dangos rhai o reolau'r wyrchw.

- Am faint o'r gloch y bydden nhw'n codi?
- Am faint o'r gloch y bydden nhw'n mynd i'r gwely?

Mae **Sleid 42** yn dangos rhestr fwyd y wyrchw. Roedden nhw'n bwyta pethau fel potes neu gual (fel uwd).

- Fyddech chi'n mwynhau bwyta hyn?

Syniadau ar gyfer y sesiwn grynhai:

- Fyddech chi wedi hoffi byw yn Oes Fictoria? Pam/pam lai?
- Pa gwestiynau yr hoffech chi eu holi i rywun o Oes Fictoria?
- Pa dri pheth rydych chi wedi eu dysgu heddiw?

Gweithgareddau posibl i'w gwneud yn deillio o'r gweithdy hwn:

- Creu amserlen ysgol ar gyfer ysgol yn Oes Fictoria. Cofiwch y byddai merched a bechgyn yn cael gwersi gwahanol.
- Tynnwch lun gwisg nodweddiadol ar gyfer person o Oes Fictoria, a llun arall o wisg nodweddiadol rhywun heddiw. Beth sy'n debyg / yn wahanol?
- Dewch o hyd i'r gwaith y byddai'r plant hyn yn ei wneud: saer olwynion, gwas neges, llifiwr, prentis a morwyn nyrs. Allwch chi ddod o hyd i unrhyw waith arall y byddai plant yn ei wneud yn Oes Fictoria?

- Ysgrifennwch ddyddiadur o safbwynt person cefnog neu berson tlawd. Beth rydych chi'n ei wneud ar ddiwrnod arferol? Sut rydych chi'n treulio eich amser hamdden? Sut rydych chi'n teimlo am eich bywyd chi?